

Ymateb i ddatguddiad

“...difethir fy mhobl o eisiau gwybodaeth.” (adn. 6)

Beth am ddarllen Hosea 4:1–9 ac yna myfyrio

Mae un peth yn sicr, ni fydd y rhai sydd yn ymateb yn negyddol i'r Beibl yn symud ymhell ymlaen yn eu bywyd Cristnogol. Yn ôl John Stott: “Nid dweud yr wyf ei fod yn amhosibl i fod yn ddisgybl i Iesu heb feddwl uchel o'r Gair, eto rwyf am fentro dweud fod golwg lawn ac aeddfed ar ddisgyblaeth Gristnogol yn amhosibl pan nad yw'r disgybl yn darostwng ei hunan i ddysgeidiaeth ei Arglwydd a'r awdurdod sydd i'r ddysgeidiaeth honno fel ag y mae yn y Gair.” Rwy'n cytuno. A dweud y gwir, buaswn i yn mynd ymhellach, gan ddweud fod y Cristnogion hynny sydd am wneud pob ymdrech i ychwanegu at eu ffydd y rhinweddau y mae Pedr yn eu rhestru yn y bennod gyntaf o'i ail epistol, ond sydd ddim yn derbyn y Beibl fel yr awdurdod terfynol ymhob peth ysbrydol, yn ymdrechu'n gwbl ofer. Nid yw ein bywyd Cristnogol ond yn effeithiol i'r graddau y byddwn yn ymateb yn bositif i'r datguddiad, ac, yn sicr, bydd yna wendidau mawr yn ein cerddediad os na fyddwn yn derbyn datguddiad gwrthrychol Duw. Mae hwn yn fater tyngedfennol, a rhaid inni ddod lawr y naill ochr neu'r llall.

Mae'r rhai hynny sydd yn gweithredu yn ôl rheswm dynol yn unig yn taflu gwawd arnom wrth inni ddweud ein bod yn derbyn y Beibl trwy ffydd. Nid ein bod yn gosod rheswm o'r neilltu ond mae rheswm yn medru bod yn arweinydd twyllodrus. Gwelodd y ddeunawfed ganrif wawr 'Oes Rheswm', ond i ble yr arweiniodd Oes Rheswm ddynoliaeth? Mae seiciatryddion yn galw'r dyddiau hyn yn 'Ddyddiau Gofid'. Mae Gair Duw yn rhoi goleuni. Mae esgeuluso Gair Duw yn dwyn tywyllwch.

Mae'r math o fywyd yr ydym wedi ei ddatblygu ac yn ei fyw yn ein dyddiau ni yn arwain at nerfau sydd yn chwilfriw, bywydau sydd wedi eu maglu droeon, cartrefi sydd wedi eu torri, a seiciatryddion sydd yn gwneud ffortiwn. Mae'n debyg eu bod yn gwybod popeth am fywyd ac eithrio sut mae byw. Dyna yw canlyniad anwybyddu'r Beibl a'i wirioneddau.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 7:24–29; Ioan 20:30–31; Actau 17:10–12 i Tim. 4:13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod y Beibl mor bwysig?
2. Pam fod pobl yn ei wrthod?

Gweddi

O Dad, diogela dy bobl rhag cael eu goddiweddyd gan fyd lle mae'r diafol yn llywodraethu. Caniatâ inni gael ein hadnabod unwaith eto fel pobl y Llyfr. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.